

DYDDIAD:

Annwyl _____,

Teitl y prosiect (os yw'n hysbys)

Diolch am wneud cais am Fabwysiadu/Cysylltu i DECIPHer. Amgawch y ffurflen y bydd angen ei chwblhau a'i dychwelyd i Gydlynnydd Ymchwil DECIPHer yn (DECIPHerAdoption@cf.ac.uk). Bydd arweinydd DECIPHer yn gweithio gyda chi i lenwi'r ffurflen.

Ar ôl ei gyflwyno, bydd eich cais yn cael ei ystyried gan Fwrdd Partneriaeth Strategol DECIPHer. Os yw eich astudiaeth naill ai wedi'i mabwysiadu neu wedi'i gysylltu, rhoddir cyfeirnod a chysylltiad academiaidd arweiniol i chi, pwys fydd yn trafod sut gallwn gefnogi'r astudiaeth, yr adnoddau sydd eu hangen a'r disgwyliadau ar gyfer astudiaeth fabwysiedig neu gysylltiedig. . Byddwn hefyd yn eich cyngori ynghylch gwneud cais am Fabwysiadu Portffolio HCRW os yw'r astudiaeth yn gymwys.

1. Llenwi'r Ffurflen

Mae'r ffurflen yn gofyn i chi am wybodaeth i'n helpu ni i wneud penderfyniad ynghylch a allwn ni ddarparu'r math iawn o gefnogaeth i chi ac a yw'r astudiaeth yn cyd-fynd â rhaglenni ymchwil DECIPHer er mwyn bod yn astudiaeth fabwysiedig.

Mae'n bosibl nad yw'n cysylltu'n uniongyrchol â'n rhaglenni gwaith nac yn ymwneud â datblygu seilwaith neu ganolfan partneriaeth, ac os felly gellir ei ystyried yn astudiaeth gysylltiedig. Ar gyfer astudiaethau cysylltiedig, byddem yn trafod lefel y gefnogaeth y gallem ei darparu yng ngoleuni ymrwymadau astudio mabwysiedig ac mae disgwyliadau gwahanol o ran adrodd a chydabod o'i gymharu ag astudiaethau mabwysiedig.

Wrth lenwi'r ffurflen hon, byddwn hefyd yn gofyn ichi am rywfaint o wybodaeth sydd ei hangen ar ein cyllidwyr na fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer gwneud y penderfyniad am fabwysiadu/cysylltu. Mae hon yn cynnwys manylion cyllido, y math o astudiaeth ac i ba raddau yr ydym yn cefnogi prif ymchwilwyr a chyd-ymchwilwyr tro cyntaf. Gofynnwn ichi hefyd ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau posibl sy'n gysylltiedig â'r astudiaeth, megis cyllid neu gysylltiadau â diwydiannau tybaco neu gamblo.

2. Rhesymau dros gael DECIPHer i fabwysiadu'ch astudiaeth.

Os mabwysiadir eich astudiaeth gall elwa ar:

Cefnogaeth Academiaidd

- Arweinydd academiaidd i gefnogi datblygu a chyflawni'r astudiaeth
- Cyfleoedd i dynnu ar arbenigedd sylweddol a methodolegol DECIPHer
- Cefnogaeth o ran polisi a chyfranogiad ymarfer
- Cyfleoedd i gydweithio a rhannu gwybodaeth â rhwydwaith DECIPHer o academyddion, o lunwyr polisiâu ac o ymarferwyr sy'n ymwneud ag ymchwil o ansawdd uchel mewn meysydd tebyg
- Cyngor a chefnogaeth ar gyfer lledaenu gwybodaeth a gweithgareddau cyfleu gwybodaeth

- Cyngor ar fynd i'r afael â chydardoldeb ac amrywiaeth mewn ymchwil: <https://www.nihr.ac.uk/documents/improving-inclusion-of-under-served-groups-in-clinical-research-guidance-from-include-project/25435>
- Cyngor ar wneud cais ar gyfer mabwysiadu ym mhortffolio HCRW
- Mynediad â blaenoriaeth at gyrsiau byr/hyfforddiant/lleoliadau

Cefnogaeth i Gynnwys y Cyhoedd

- Mynediad at gefnogaeth gan ein Swyddog Cynnwys y Cyhoedd ar fodloni'r safonau cenedlaethol ar gyfer cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil. <https://www.invo.org.uk/posttypepublication/national-standards-for-public-involvement/>
- Mynediad i grŵp cynghorol pobl ifanc DECIPHER, ALPHA. Gall gweithio gydag ALPHA fod o fudd mawr i'ch ymchwil. Mae aelodau ALPHA yn cynrychioli ystod eang o bobl ifanc, sy'n fedrus wrth gynghori ar ymchwil iechyd cyhoeddus. Mae arbenigedd unigryw aelodau ALPHA yn helpu i sicrhau bod ymchwil yn berthnasol, yn dderbyniol ac o'r ansawdd uchaf. Mae'r grŵp yn arbennig o brofiadol wrth gynghori ar ddatblygu ceisiadau, ac mae cyllidwyr yn gwerthfawrogi cyfranogiad pobl ifanc
- Os yw eich prosiect ar y cam datblygu cais, yna gallwn gynnig un sesiwn ALPHA am ddim i helpu i fireinio'ch cais a nodi pa lefelau o gefnogaeth i gynnwys y cyhoedd y bydd eu hangen arnoch trwy gydol oes yr ymchwil. Disgwylir i ymgeiswyr am fabwysiadu gynnwys costau cyfranogiad y cyhoedd yn eu cynnig lle bynnag y rhagwelir y bydd ymrwymiad amser sylweddol gan ALPHA
- Ar gyfer prosiectau a fabwysiedir gan DECIPHER nad ydynt yn cynnwys pobl ifanc, cynigir cyfarfod gyda Swyddog Cynnwys y Cyhoedd i drafod cyfranogiad y cyhoedd. Gall hyn gynnwys gweithio gydag ymchwilwyr i benderfynu pwy yw'r cyhoedd priodol, pwrpas cynnwys y cyhoedd, ac ar ba gamau y dylid cynnwys cyfranogiad y cyhoedd yn ystod y prosiect, a pha gostau cysylltiedig y dylid eu cynnwys mewn cais ymchwil.
- I ddarllen mwy am brosiectau penodol dilynwch y ddolen: <https://decipher.uk.net/public-health-improvement-research-networks-phirns/public-involvement-alpha/>
- I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Peter Gee (PGee@caerdydd.ac.uk).

Cefnogaeth Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (y Rhwydwaith) yn dwyn ynghyd ysgolion uwchradd ac ymchwilwyr academiaidd, llunwyr polisiâu ac ymarferwyr o feysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i wella iechyd a lles pobl ifanc yn amgylchedd yr ysgol. Mae'n bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymchwil Canser y DU a Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru. Fe'i harweinir gan y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyrraeth Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHER) ym Mhrifysgol Caerdydd. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddolen: <https://www.shrn.org.uk/about/>

Gall ymchwilwyr wneud cais am gefnogaeth benodol fel astudiaeth a fabwysiadwyd gan SHRN ac elwa ar:

- Cyngor ar recriwtio ysgolion a chyfranogwyr (deunyddiau a phrotocol) a chymhellion i ysgolion
- Cyngor ar ddylunio a darparu ymyrraeth, naill ai gan dîm SHRN yn uniongyrchol neu drwy fynediad wedi'i hwyluso i ysgolion
- Cyngor ar gasglu data, deunyddiau ac amseru
- Darparu data ar gyfer samplu. Mae SHRN yn cynnal dau arolwg bob dwy flynedd, o iechyd a lles myfyrwyr ac o bolisiau ac arferion cysylltiedig ag iechyd ysgolion (holiadur amgylchedd ysgol). Gellir defnyddio data o'r rhain ar gyfer samplu haenedig neu fwriadol o ysgolion.

- Cefnogaeth i recriwtio ysgolion. Fel rheol mae hyn yn golygu bod rheolwr SHRN yn cysylltu ag ysgolion ar ran tîm ymchwil i wneud cyflwyniad cychwynnol
- Cyngor a/neu gefnogaeth ar gyfer cadw ysgolion unwaith y bydd astudiaethau ar y gweill
- Cefnogaeth i ledaenu trwy sianeli cyfnewid gwybodaeth sefydledig SHRN, ee gweminarau a chylchlythyrau.
- Disgwylir i ymgeiswyr am fabwysiadu gynnwys costau cyfranogiad y cyhoedd yn eu cynnig lle bynnag y rhagwelir y bydd ymrwymiad amser sylweddol gan SHRN

3. Disgwyliadau ar gyfer Astudiaethau Mabwysiedig/Cysylltiedig (pob diweddariad i DECIPHerAdoption@cf.ac.uk)

Ar gyfer astudiaethau mabwysiedig a chysylltiedig: Byddem angen:

- Ichi roi'r newyddion diweddaraf am statws y prosiect (cais wedi'i gyflwyno ariannu/gwrthod/ar y gweill/wedi'i gwblhau). Byddwn yn eu riportio ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddynt fel astudiaethau a gefnogir gan DECIPHer/SHRN

Ar gyfer astudiaethau mabwysiedig: Byddem hefyd yn argymhell y canlynol:

- I gael y wybodaeth ddiweddaraf am allbynnau (ee cyhoeddiadau), dilynwch brosiectau ac unrhyw eitemau eraill sy'n deilwng o fod yn y newyddion i DECIPHerAdoption@cf.ac.uk)
- Cydnabod DECIPHer a'i arianwyr mewn unrhyw allbynnau, gan ddefnyddio logo DECIPHer, templed poster/cyflwyniad, a thestun cydnabod gofynnol: *“Cefnogwyd y gwaith hwn gan y Ganolfan Datblygu, Gwerthuso, Cymhlethdod a Gweithredu mewn Gwella Iechyd Cyhoeddus (DECIPHer) a ariennir gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru”*

Ar gyfer astudiaethau mabwysiedig SHRN: Mae gallu SHRN i gefnogi astudiaethau mabwysiedig yn dibynnu ar ei berthynas gref â'r ysgolion sy'n aelodau. Mae hyn wedi cael ei adeiladu dros sawl blwyddyn gan raglen helaeth o ymgysylltu ag ysgolion, gan gynnwys adborth yn ôl canfyddiadau ymchwil a fabwysiadwyd gan SHRN. Un nod o hyn yw cynyddu llythrennedd ymchwil ysgolion a'u gallu i ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Disgwylir i dimau ymchwil o astudiaethau a fabwysiedir gan SHRN gyfrannu at hyn trwy sicrhau bod ysgolion sy'n cael eu recriwtio i'w hastudiaeth a'r aelodaeth SHRN ehangach yn cael gwybod am gynnydd a chanfyddiadau eu hastudiaeth. Gallai hyn gynnwys:

- Ysgrifennu erthyglau ar gyfer [cylchlythyr SHRN](#)
- Ysgrifennu [blog](#) ar gyfer gwefannau SHRN neu DECIPHer
- Cyflwyno [gweminar](#)
- Cyflwyno i grwpiau iechyd a lles ysgolion
- Cynnwys SHRN mewn digwyddiadau lledaenu astudiaethau
- Cydweithio â'r tîm SHRN i gynhyrchu [briff ymchwil](#), sy'n seiliedig ar unrhyw erthyglau cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid ac a gyhoeddir yn sgil yr astudiaeth

4. Portffolio Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW)

Yn ogystal â chael ei fabwysiadu gan DECIPHer, gall eich prosiect hefyd fod yn gymwys ar gyfer Portffolio Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW). Mae Portffolio HCRW yn gofrestr o astudiaethau ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n weithredol yng Nghymru sy'n cwrdd â meini prawf cymhwysedd penodol ac ymchwil fasnachol.

Mae cofrestru ar y portffolio yn rhoi mynediad i chi i gefnogaeth y GIG ar gyfer cyflwyno astudiaeth. I gael rhagor o fanylion a gwybodaeth am y portffolio a sut mae gwneud cais, dilynwch y ddolen:



<https://www.healthandcareresearch.gov.wales/research-route-map/what-is-the-research-directory-or-portfolio/what-is-the-health-and-social-care-portfolio/>

Os oes unrhyw gwestiynau eraill ar y ffurflenni hyn, neu unrhyw ddiweddariadau i'r allbwn, cysylltwch â: Cydlynnydd Ymchwil DECIPHer, Lindsey Allan ar **029 2087 5378** neu DECIPHERadoptions@caerdydd.ac.uk neu

dîm y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN) ar **029 2087 4433** neu SHRN@caerdydd.ac.uk

Diolch yn fawr a dymuniadau gorau,

Tîm Gweithredol DECIPHer